Hawdd ei Ddeall



# Cronfa Cymunedau Creadigol

## Arian i helpu grwpiau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru

**Medi 2025**


Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Cymunedau Creadigol.**




Efallai y bydd angen help arnoch i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod eich helpu chi.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cyngor Celfyddydau Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

| | |
|---|---|
| **Gwefan:** | www.celf.cymru |
| **E-bost:** | grantiau@celf.cymru |
| **Ffôn:** | 03301 242733 |

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn Hawdd ei Ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Phorosymbols 403527247

# Cynnwys


Amdanom ni ........ 4

Am y gronfa Cymunedau Creadigol ........ 5

Pwy sydd yn gallu gwneud cais ........ 7

Ar gyfer beth mae cyllid yn gallu cael ei ddefnyddio ........ 8

Ein blaenoriaethau ........ 12

Faint allwch chi wneud cais amdano ........ 14

Pryd rydych chi’n gallu gwneud cais ........ 15

Y broses gwneud cais ........ 16

Sut fyddwn ni’n asesu eich cais ........ 19

Ar ôl y prosiect ........ 21

Sut i gael help ........ 22

Cwestiynau sydd yn cael eu gofyn yn aml ........ 24

# Amdanom ni



Ni ydy Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydyn ni'n rhoi arian i gefnogi'r celfyddydau yng Nghymru.



Pan fyddwn ni'n dweud celfyddydau, rydyn ni'n meddwl pethau fel:

- Paentio a lluniadu.
- Cerddoriaeth, dawns a theatr.




Mae'r llyfryn yma am y gronfa Cymunedau Creadigol a sut i wneud cais.

# Am y gronfa Cymunedau Creadigol



Mae'r gronfa yma ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru.




Mae'r arian ar gyfer prosiectau celfyddydol bach.



Mae'r arian ar gyfer cefnogi gweithgareddau celfyddydol.



Rydyn ni eisiau cefnogi lleoedd sydd ddim fel arfer yn cael llawer o gyllid ar gyfer y celfyddydau.



Fe ddylai prosiectau ganolbwyntio ar gael pobl i gymryd rhan.



Rydyn ni'n poeni mwy am bobl sy'n cymryd rhan na'r canlyniad.

# Pwy sydd yn gallu gwneud cais



Mae sefydliadau yn gallu gwneud cais.




Edrychwch ar ein rhestr o bwy sy'n gallu gwneud cais: https://arts.wales/cy/cymhwysedd-sefydliadau



**Fe fyddwn ni'n rhoi cyllid i:**

- Grwpiau gwirfoddol a chymunedol yng Nghymru.
- Gyda blaenoriaeth i grwpiau nad ydynt wedi cael cyllid gennym ni o'r blaen.



**Dydy rhai sefydliadau ddim yn gallu gwneud cais:**

- Cwmnïau sy'n gwneud elw i gyfranddalwyr. Mae'r rhain yn cael eu galw yn Cwmni Gyfyngedig trwy Gyfranddaliadau.
- Sefydliadau sydd ddim wedi'u lleoli yng Nghymru.

# Ar gyfer beth mae cyllid yn gallu cael ei ddefnyddio



Rydych chi'n gallu gwneud cais am **brosiectau celfyddydol bach**.



Rhaid i brosiectau fod mewn ffurfiau celf rydyn ni'n eu cefnogi.



Fe ddylai prosiectau roi cyfle i bobl ymuno a mwynhau gweithgareddau creadigol.



Fe ddylai fod ar gyfer cynulleidfaoedd newydd a chyfredol.



Fe ddylai prosiectau ddangos gwahanol ieithoedd, diwylliannau a chymunedau Cymru.



Rhaid i'ch prosiect ddigwydd yn eich cymuned yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau prosiectau sy'n cynnwys y gymuned yn eu cynllunio.



Fe ddylai eich prosiect ychwanegu at a gwella eich gweithgareddau arferol.



Ni ddylai fod yn rhan o'ch gwaith arferol.



Rhaid i chi gael artist neu grŵp celfyddydol i helpu i redeg y prosiect.



Rhaid iddyn nhw gael profiad da o wneud gwaith tebyg.




Mae angen i chi ddangos prawf o'u gwaith yn y gorffennol. Fel dolenni gwefan, erthyglau, neu CVs.




Rhaid i'ch prosiect gael dyddiad dechrau a gorffen clir.



Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n rhoi digon o amser i wneud y gwaith yn dda.



Cyn dechrau eich prosiect, rhaid i chi roi digon o amser. Rhag ofn ein bod yn gofyn am fwy o wybodaeth.




Rydych chi angen o leiaf 8 wythnos rhwng eich cais a dyddiad dechrau'r prosiect.



Meddyliwch am bethau fel:

- faint o amser rydych chi ei angen i baratoi eich cais
- a pha mor hir fydd hi'n ei gymryd i ni wneud penderfyniad.

# Ein blaenoriaethau



Fe ddylai eich cais ddangos sut mae eich prosiect yn cefnogi 1 neu fwy o'r syniadau yma:



**Creadigrwydd**: Rydyn ni eisiau gweld gwahanol fathau o waith creadigol sy'n canolbwyntio ar bobl a chymunedau.



**Cynnwys pawb**: Rydyn ni'n canolbwyntio ar gyrraedd grwpiau sy'n aml yn cael eu gadael allan.




**Y Gymraeg**: Rydyn ni eisiau helpu pobl i ddefnyddio mwy o'r iaith Gymraeg.



**Hinsawdd**: Rydyn ni'n cefnogi prosiectau sy'n annog pobl i weithredu i amddiffyn ein planed.



**Datblygu talent**: Rydyn ni eisiau cefnogi pobl o bob cefndir i adeiladu gyrfaoedd a sgiliau creadigol.



**Newid:** Rydyn ni eisiau i'r celfyddydau dyfu, cymryd risgiau a newid. I bawb ac i bob cymuned yng Nghymru.



Rhaid i bob prosiect ddilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

# Faint allwch chi wneud cais amdano



Rydych chi'n gallu gwneud cais am rhwng £500 a £1,500.



Rydych chi'n gallu gofyn am swm llawn costau eich prosiect.




Rydych chi'n gallu darllen am ba gostau rydych chi'n gallu gwneud cais amdanyn nhw, gan gynnwys ffioedd artistiaid: https://arts.wales/cy/nodiadau-cymorth-cyllid

# Pryd rydych chi'n gallu gwneud cais



Does dim dyddiadau cau penodol ar gyfer y gronfa Cymunedau Creadigol.




Ond mae'n rhaid i chi gadw o leiaf 8 wythnos waith rhwng gwneud cais a dechrau eich prosiect.



Dydyn ni ddim yn gallu ariannu prosiectau sydd wedi dechrau yn barod.

# Y broses gwneud cais

## Sut i wneud cais




Fe fydd angen i chi wneud cais ar ein porth ar-lein.



Os nad ydych chi wedi defnyddio'r porth yma o'r blaen, fe fydd angen i chi gofrestru.




Rydych chi'n gallu darganfod mwy am hyn yma: [https://porth.celf.cymru](https://porth.celf.cymru)

# Cwestiynau mae angen i chi eu hateb

## 1. Ffurflen gais



Gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb pob cwestiwn yn glir.

Rydych chi'n gallu dod o hyd i'r ffurflen gais yma: [arts.wales/cy/cymunedau-creadigol](arts.wales/cy/cymunedau-creadigol)

## 2. Gwybodaeth ariannol



Yn y ffurflen, rhaid i chi ddarparu costau eich prosiect. Fe fydd hyn yn dangos faint rydych chi'n gofyn amdano, ar beth fydd y grant yn cael ei wario, a sut y bydd yn helpu'ch sefydliad.

## 3. Gwybodaeth partner



Rhaid i chi gynnwys llythyr neu e-bost gan eich partner. Mae hyn i gadarnhau y byddan nhw'n gweithio gyda chi. Fe fyddwn ni angen dolen gwefan i'w gwaith, a'u ffi.




Os oes rhywbeth ar goll neu ddim yn glir, Fe fyddwn ni'n cysylltu â chi. Fe fydd gennych chi 5 diwrnod gwaith i ddatrys unrhyw broblemau.



Os ydych chi angen help gyda'ch ffurflen, cysylltwch â'n tîm Grantiau a Gwybodaeth.

**E-bost**: [grantiau@celf.cymru](mailto:grantiau@celf.cymru)

**Ffôn:** 03301 242733




Rydych chi'n gallu darllen mwy am beth sy'n digwydd ar ôl i chi gyflwyno'ch cais: [https://arts.wales/cy/y-broses-ymgeisio](https://arts.wales/cy/y-broses-ymgeisio)

# Sut fyddwn ni'n asesu eich cais




Mae pob cais yn mynd trwy'r un broses wirio'n ofalus.

Fe fyddwn ni'n edrych ar:



- Eich syniadau a phwy fydd yn gweithio gyda chi. Rydym yn disgwyl i chi dalu artistiaid llawrydd yn deg.




- Pa mor dda mae eich prosiect yn ein helpu i gyrraedd ein nodau.



- Sut fydd y prosiect yn helpu pobl sy'n aml yn cael eu gadael allan.



- Sefydliadau rydych chi'n gweithio gyda nhw.




- Pa mor dda rydych chi wedi cynllunio'r prosiect.



- Pa mor dda rydych chi wedi rheoli'r gyllideb i wneud yn siŵr bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n iawn.





- Lle bydd y prosiect yn digwydd.



Os bydd eich cais yn llwyddiannus, fe fyddwn ni'n cysylltu â chi. Efallai na fyddwn ni'n gallu cysylltu â phawb i roi adborth am ein penderfyniad.

# Ar ôl y prosiect




Rhaid i chi roi adroddiad ar ddiwedd y prosiect.



Mae'r adroddiad yma yn ein helpu i wybod:

- sut aeth eich prosiect
- a sut mae'r arian wedi cael ei ddefnyddio.



Mae hefyd yn gyfle i chi edrych ar:

- beth oedd wedi gweithio'n dda
- a beth fyddech chi'n gallu ei wneud yn wahanol y tro nesaf.



Rydyn ni eisiau dathlu llwyddiant prosiectau sydd yn cael eu hariannu. Rydych chi'n gallu anfon unrhyw enghreifftiau gwaith, lluniau a fideos sydd gennych chi.

# Sut i gael help




Rydych chi’n gallu cysylltu â ni os ydych chi eisiau gwybodaeth mewn gwahanol fformatau. Er enghraifft, print bras, braille, sain, Hawdd ei Ddeall, ac Iaith Arwyddion Prydain.




Rydyn ni hefyd yn gallu cynnig gwybodaeth mewn ieithoedd eraill.




Os ydych chi angen cymorth ychwanegol, rydych chi’n gallu darllen mwy am beth rydyn ni’n ei gynnig: https://arts.wales/cy/cymorth-hygyrchedd

Rydych chi’n gallu cysylltu â ni:



**E-bost**: grantiau@celf.cymru

**Ffôn:** 03301 242733

# Mwy o wybodaeth

**Rydych chi'n gallu edrych ar y dolenni am ragor o wybodaeth:**



I helpu gyda'ch syniadau, rydych chi'n gallu darllen am Cyfranogiad ac Ymgysylltu â'r Gymuned.



Os ydy eich prosiect am gerddoriaeth yn bennaf, efallai y bydd gan Tŷ Cerdd opsiynau ariannu gwell i chi.



Os ydy eich prosiect am lenyddiaeth yn bennaf, edrychwch ar Llenyddiaeth Cymru am eu dewisiadau ariannu.



Os oes gennych chi gwestiwn, edrychwch ar y **Cwestiynau sydd yn cael eu gofyn yn aml** ar **dudalen 24**.

# Cwestiynau sydd yn cael eu gofyn yn aml




1. **Ydyn ni'n gallu gwneud cais i gynnal perfformiad?**

   Na, mae'r gronfa yma ar gyfer gweithgareddau fel gweithdai. Am berfformiadau, edrychwch ar y cynllun Noson Allan: https://www.nosonallan.org.uk



2. **Ydyn ni'n gallu gwneud cais am gyllid ar gyfer ein gweithgareddau arferol?**

   Na, mae'r gronfa yma ar gyfer gweithgareddau newydd neu ychwanegol. Fel dod ag artist newydd i mewn ar gyfer gweithdai.




3. **Rydw i'n artist neu'n sefydliad celfyddydol, ydw i'n gallu bod yn bartner ar fwy nag 1 prosiect?**

   Ydych, rydych chi'n gallu bod yn bartner ar fwy nag 1 prosiect. Rydyn ni eisiau gweld gwahanol artistiaid a sefydliadau yn gweithio gyda chymunedau ar draws Cymru.



4. **Dydyn ni ddim yn gwybod gyda phwy rydyn ni am weithio gyda nhw eto, ydyn ni'n gallu gwneud cais o hyd?**

   Na, rhaid i chi enwi eich partner yn y cais.



5. **Oes rhaid i ni weithio gydag artist neu sefydliad celfyddydol o Gymru?**

   Oes, rhaid i'r artist neu'r sefydliad fod wedi'i leoli yng Nghymru.




6. **Ydyn ni'n gallu gwneud cais i'r gronfa fwy nag unwaith?**

   Ydych, os ydy eich prosiect olaf wedi'i orffen a'ch bod wedi rhoi eich adroddiad terfynol. Ond fe fyddwn ni'n rhoi i grwpiau yng Nghymru sydd ddim wedi cael cyllid o'r blaen.




**7. Rydw i'n rhan o grŵp, ond dydyn ni ddim wedi'i sefydlu'n ffurfiol. Oes un ohonom ni yn gallu gwneud cais fel unigolyn?**

Na, dim ond sefydliadau sy'n bodloni ein rheolau sydd yn gallu gwneud cais:
https://arts.wales/cy/cymhwysedd-sefydliadau

Dydy'r sefydliadau yma ddim yn gallu gwneud cais:

- Cwmni Cyfyngedig trwy Gyfranddaliadau – sefydliadau sy'n gwneud elw.
- Sefydliadau sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru.



**8. Ydyn ni'n gallu gwneud cais i greu murlun neu osodiad celf?**

Ydych, ond mae'n rhaid i chi gael caniatâd i greu'r gwaith yn y gofod. Mae'n rhaid i chi ddangos pwy fydd yn ei gynnal.